Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26

Hydref 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26

Hydref 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Casgliad ac Argymhellion ........ 5**

**1. Cyflwyniad ........ 8**

**2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26 ........ 9**

Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26 ........ 10

Dyraniad ôl-daliadau ........ 15

Arbedion ac Effeithlonrwydd ........ 16

Y Ffframwaith Adnoddau Tymor Canolig ........ 18

Ymgysylltu â'r Aelodau ........ 20

Barn y Pwyllgor ........ 21

**3. Cyllidebau wedi'u clustnodi ........ 25**

Diwygio'r Senedd ........ 25

Ffyrdd o Weithio - Bae Caerdydd 2032 ........ 27

Bae Caerdydd 2032 ........ 27

Adolygu'r Pierhead ........ 29

Barn y Pwyllgor ........ 29

**4. Y gweithlu ........ 33**

Effaith Cytundebau Cyflog ........ 33

Cynllunio'r Gweithlu ........ 35

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial ........ 37

Llesiant Staff ........ 38

Barn y Pwyllgor ........ 39

**5. Cronfa Prosiectau ........ 42**

Barn y Pwyllgor ........ 43

# Casgliad ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad Comisiwn y Senedd i dynnu'r £456,000 sy'n ymwneud ag ôl-daliadau staff o'i gynigion cyllidebol ar gyfer 2025-26 os bydd y Senedd yn cymeradwyo Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 ar 22 Hydref, ac mae'n disgwyl i'r ffigurau hyn gal eu tynnu o gyllideb derfynol y Comisiwn cyn i'r Senedd ei hystyried yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26' ac mae'r rhan fwyaf o'i aelodau yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon, yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn cynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r Pwyllgor i drafod sut mae paratoadau cyllideb y Comisiwn yn datblygu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd, yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion, yn esbonio:

- sut mae'n ceisio gwella prosesau a sicrhau arbedion;
- sut mae prosesau i sicrhau arbedion wedi newid yng ngoleuni'r newidiadau i gyllideb y Comisiwn a achosir gan Ddiwygio'r Senedd;
- sut y bydd y dull hwn yn datblygu y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2025-26;

a bod cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cyllid ar y materion hyn cyn gosod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhannu copi o'i Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig â'r Pwyllgor i'w alluogi i ddeall sut mae'n sbarduno arbedion a dwyn prosesau o'r fath i gyfrif. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn ystyried ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd a Grwpiau Plaid mewn ffordd fwy ffurfiol cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol a bod digon o amser yn cael ei roi i sicrhau bod canlyniadau'r ymgysylltu hwn yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol. .......... Tudalen 24

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i ddangos bod cyllidebau wedi'u clustnodi ar wahân ac yn nodi yn nogfennau'r gyllideb sut mae costau Diwygio'r Senedd yn cymharu ag amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng nghyllidebau'r dyfodol. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn mynychu sesiynau tystiolaeth cyhoeddus mewn perthynas â phrosiect Bae Caerdydd 2032, gyda'r sesiwn gyntaf yn digwydd yn fuan ar ôl cytuno ar yr achos busnes amlinellol. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi gwybodaeth am sut y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â phrosiect Bae Caerdydd 2032 yn cael eu gwneud, gan gynnwys pryd y bydd Aelodau'r Senedd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau o'r fath a'r amserlnni cysylltiedig. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn egluro:

- pa fecanweithiau a fydd ar waith i gytuno ar daliadau dadfeilio ar ddiwedd les Tŷ Hywel;
- sut mae'n sicrhau bod unrhyw brosiectau presennol neu brosiectau yn y dyfodol ar yr adeilad yn anelu at leihau rhwymedigaethau o'r fath; a
- ▪sut y bydd y costau hyn yn cael eu hamsugno gan brosiect Bae Caerdydd 2032 ac a fydd costau o'r fath yn cael eu clustnodi yn y dyfodol. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi gwybodaeth am ei strategaeth ystadau dros y 5 i 10 mlynedd nesaf erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2025-26, gan gynnwys manylion ynghylch unrhyw brosiectau mawr sy'n cael eu cynnal o fewn yr amserlenhonno a'r costau cysylltiedig, pan fo'n bosibl. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am Brosiect Adolygu'r Pierhead o fewn tri mis ar ôl i'r adolygiad ddod i ben. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â chytundebau cyflog i staff y Comisiwn yn 2025-26 ac, os yw'r dyfarniadau cyflog yn uwch na'r ffigur o bump y cant yn y Gyllideb Ddrafft, mae' Comisiwn yn egluro sut y bydd y taliadau hyn yn cael eu cyllido. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhannu gyda'r Pwyllgor fanylion ei ymarfer meincnodi gyda strwythurau staffio uwch-reolwyr yn seneddau eraill y DU. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei gynlluniau ar gyfer meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2025-26 ac yn nodi'r trefniadau llywodraethu a'r ystyriaethau moesgol sy'n sail i'w defnyddio gan yr Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i fonitro newidiadau yn llesiant staff drwy arolygon staff ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r arolygon hynny a'r camau a gymerwyd i liniaru'r pwysau ar staff cyn yr tholiad yn 2026. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn darparu rhestr o brosiectau arfaethedig ar gyfer 2025-26, gydag amcangyfrif o'r cyllid a ddyrannwyd, cyn dechrau blwyddyn ariannol 2025-26 ac i ddull o'r fath gael ei fabwysiadu ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol. ........ Tudalen 44

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch ei gynlluniau prosiect hirdymor hyd at 2032, gan gynnwys amcangyfrif o gostau prosiectau unigol, os ydynt yn hysbys. ........ Tudalen 44

# 1. Cyflwyniad

**1.** Yn ôl Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd:

> "*Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Senedd gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru.*"[1]

**2.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y Gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn datgan:

> "*Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn.*"[2]

**3.** Gosodwyd Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) ar gyfer 2025-26: Newid Sylweddol a Gynlluniwyd (y Gyllideb Ddrafft) ar 27 Medi 2024.[3] Ystyriodd y Pwyllgor gynigion y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2024,[4] a chlywed tystiolaeth gan:

- Hefin David AS, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu;
- Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd;
- Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd;
- Simon Hart, Prif Swyddog Cyllid Dros Dro, y Senedd.

[1] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[3] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024
[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024

# 2. Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26

**4.** Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi Datganiad o Egwyddorion[5] y mae'n disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol. Mae'r Pwyllgor wrthi'n adolygu'r Datganiad o Egwyddorion, ar ôl ymgynghori â'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ym mis Mai 2023.[6]

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol:

Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.

Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.

Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.

Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.

Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

**5.** Ar 19 Gorffennaf 2024, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar y pryd at y Pwyllgor i nodi gwahanol ffactorau i lywio'r gwaith blaengynllunio ariannol ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth iddynt baratoi eu cyllidebau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.[7]

[5] Y Pwyllgor Cyllid, Datganiad o Egwyddorion, Gorffennaf 2021
[6] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, 4 Mai 2023
[7] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Gorffennaf 2024

**6.** Yn ôl y Gyllideb Ddrafft:

> *"Mae'r Comisiwn wedi cofio'r egwyddorion hyn wrth lunio ei amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2025-26. Mae'r amcangyfrif yn dryloyw a rhoddir tystiolaeth o'r angen am yr adnoddau y gofynnir amdanynt a'r budd ohonynt yn naratif y ddogfen [gyllidebol] hon."* [8]

**7.** Pan ofynnwyd iddo sut yr oedd y Comisiwn yn ystyried y Datganiad o Egwyddorion wrth lunio ei gynigion cyllidebol, dywedodd y Comisiynydd:

> *"… fundamentally, one of the first things that I, when I became a commissioner, was briefed on and became aware of and worked into my everyday life was the Finance Committee's five statements of principles. Everything we do is geared towards that for directed funded bodies, and I think it's really important, particularly that last one … 'Where any increases in funding are requested, these should be backed by evidence both of the need, benefit and attempts that have been made to reduce such costs'."* [9]

## Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26

**8.** Cyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2025-26 yw £84.301 miliwn[10], o'i gymharu â £72.195 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o £12.106 miliwn o'i gymharu â Chyllideb Ddrafft 2024-25, neu 16.8 y cant. Fodd bynnag, nid oes gan y Comisiwn reolaeth dros ei gyllideb gyfan gan fod cyflog a lwfansau yr Aelodau a'u staff cymorth yn cael eu gosod gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol (gweler paragraff 11 isod).

**9.** Mae gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn (sy'n eithrio gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau), gan gynnwys dibrisiant, yn cynyddu £10.582 miliwn neu 21 y cant o'i gymharu â Chyllideb Ddrafft 2024-25. Mae mwy na hanner y cynnydd yn cael ei briodoli i Ddiwygio'r Senedd (cynnydd o £4.417 miliwn) a Ffyrdd o Weithio (£0.865 miliwn), a nodir bod y ddwy gyllideb prosiect hyn wedi'u clustnodi ac yn cael eu hystyried yn fanylach o dan Bennod 3.

**10.** Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn (ac eithrio'r ddwy gyllideb prosiect wedi'u clustnodi hyn a llog a dibrisiant) yw £46.135 miliwn, sef cynnydd o £4.604

[8] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 26
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraffau 21-22
[10] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024

miliwn neu 11.1 y cant o'i gymharu â Chyllideb 2024-25. Mae'r costau eraill yn cynnwys:

- Mae cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig yn £20.525 miliwn, sef cynnydd o £1.345 neu 7 y cant o'i gymharu â Chyllideb 2024-25;
- mae'r gyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gostwng £25,000 i £602,000;
- mae'r gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau yn cynyddu £4,000 i £105,000;
- Taliadau dibrisiant y Comisiwn yw £5 miliwn, sef gostyngiad o £250,000;
- Mae costau cyllid pensiwn yr Aelodau yn £1 miliwn, sef gostyngiad o £800,000;
- mae cyllideb a glustnodwyd o £1 miliwn ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â'r etholiad.

**11.** Rhoddir llai o ffocws yn yr adroddiad hwn i'r gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Mae cyflog a lwfansau yr Aelodau a'u staff cymorth yn cael eu gosod gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol, felly nid oes gan y Comisiwn reolaeth dros osod y gyllideb hon. Mae cyllid ar gyfer y Comisiwn ac adnoddau sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau yn cael eu gwahanu yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol i ddefnydd y Comisiwn o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau.[11] Felly, mae unrhyw danwariant yn erbyn y Penderfyniad hwn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

[11] Y Pwyllgor Cyllid (Pumed Senedd), Defnydd Comisiwn y Cynulliad o'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2018

### Tabl 1: Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26 (£'000)[12]

| | 2024-25 | 2025-26 | Newid 2025-26 o 2024-25 | | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn | £000 | £000 | £000 | % | £000 | £000 |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | £29,663 | £32,351 | £2,688 | 9.1% | £33,033 | £34,281 |
| Adeiladau a chyfleusterau | £5,991 | £6,229 | £238 | 4.0% | £6,372 | £6,520 |
| Costau TGCh | £2,731 | £2,944 | £213 | 7.8% | £3,009 | £3,047 |
| Costau eraill | £2,061 | £2,172 | £111 | 5.4% | £2,108 | £2,095 |
| Cyfanswm Gwariant Refeniw | £40,446 | £43,696 | £3,250 | 8.0% | £44,522 | £45,943 |
| Cyfanswm incwm | - £100 | -£61 | £39 | -39.0% | -£61 | -£61 |
| Gwariant Cyfalaf | £500 | £500 | £0 | 0.0% | £500 | £500 |
| Cronfa Prosiectau | £1,000 | £2,000 | £1,000 | 100.0% | £1,000 | £1,000 |
| Arbedion i'w nodi | - £315 | £0 | £315 | .. | £0 | £0 |
| Cyfanswm yr Adnoddau Gweithredol | £41,531 | £46,135 | £4,604 | 11.1 | £45,961 | £47,382 |
| Taliadau Llog | £610 | £600 | -£10 | -1.6% | £590 | £580 |
| Taliadau Dibrisiant | £4,750 | £5,000 | £250 | 5.3% | £5,000 | £5,000 |
| Cyllidebau prosiect wedi'u clustnodi | | | | | | |
| Costau Diwygio'r Senedd | £2,065 | £6,482 | £4,417 | 213.9% | £6,830 | £5,399 |
| Ffyrdd o Weithio | £1,531 | £2,396 | £865 | 56.5 | £2,256 | £1,933 |
| 2024-25 Darpariaeth ôl-daliadau | | £456 | £456 | .. | | |
| Cyfanswm Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn | £50,487 | £61,069 | £10,582 | 21.0% | £60,637 | £60,294 |
| Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Aelodau | | | | | | |
| Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig | £19,180 | £20,525 | £1,345 | 7.0% | £21,129 | £21,751 |
| Cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd | £0 | £0 | £0 | .. | £10,569 | £10,569 |
| Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | £101 | £105 | £4 | 4.0% | £108 | £110 |
| Cyllideb Weinyddol ar gyfer y Bwrdd Taliadau Annibynnol | £627 | £602 | -£25 | -4.0% | £598 | £614 |
| Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad | £0 | £1,000 | £1,000 | .. | £2,500 | £0 |
| Costau Cyllid Pensiwn yr Aelodau | £1,800 | £1,000 | - £800 | -44.4% | £1,000 | £1,000 |
| Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn | £72,195 | £84,301 | £12,106 | 16.8% | £96,541 | £94,338 |

[12] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Medi 2024 a chyfrifiadau Ymchwil y Senedd

**12.** Yn ôl dogfen y Gyllideb Ddrafft:

> *"2025-26 yw blwyddyn olaf y Chweched Senedd, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn gyflawni gwaith ychwanegol sylweddol er mwyn sicrhau bod y Senedd a'r Comisiwn yn barod ar gyfer y Seithfed Senedd a fydd yn fwy o faint. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gynnydd sylweddol mewn gofynion cyllidebol fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a gyhoeddwyd ar gyfer newid Diwygio'r Senedd.* [13]

**13.** Wrth ymddangos gerbron y Pwyllgor, disgrifiodd y Comisiynydd y Gyllideb Ddrafft fel newid sylweddol fel a ganlyn:

> *"The reason for that step change is because we've been tasked by two thirds of the Parliament—a two-thirds majority of the Parliament—to engage in Senedd reform, and that was carried through a democratic vote of the Parliament. It's now up to the Parliament to decide whether they wish to fund, and the committee themselves to decide, whether this should be funded in the way that we propose. My argument today is that there isn't really any other way of doing it."* [14]

**14.** Aeth y Comisiynydd ymlaen i ddweud bod pedwar math o bwysau allweddol ar y gyllideb :

> *"… the four areas we've got to find money for are, fundamentally, Senedd reform, which is an about £6.4 million increase this year; ways of working, which is the Bay 32 project … that's about £2.4 million; and critical infrastructure projects … And finally, the pay award for staff."*[15]

**15.** Dywedodd y Comisiynydd hefyd fod na ellid osgoi'r pwysau hyn sydd wedi arwain at y cynnydd hwn o 16 y cant i sicrhau cynnydd o 60 y cant ym maint y Senedd[16] a bod y costau hyn yn cymharu'n ffafriol â seneddau eraill, gan nodi bod Senedd yr Alban £195,000 yn ddrytach am bob Aelod na'r Senedd.[17]

[13] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 7
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 23
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 24
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 25
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 130

**16.** O ran y cynnydd o 11 y cant mewn costau gweithredol yn y Gyllideb Ddrafft nad yw'n gysylltiedig â naill ai Diwygio'r Senedd na Ffyrdd o Weithio, eglurodd y Comisiynydd fod hyn oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn:

> *"The issue is that, first of all, we've got the pay deal … and the pay deal is very much part of the operational budget. And that 5 per cent is higher than we bargained for, and that is because of factors beyond our control …*
>
> *And the other issue is the fact that we are required to do more this year. So, there are additional committees that will be running … So, they require staffing, and that has required four temporary staff to come in to clerk those committees. So, that has also added to the operational budget."*[18]

**17.** Ychwanegodd y Prif Swyddog Cyllid dros dro:

> *"… the operational budget does include other elements. So, it includes non-pay items, like accommodation and ICT costs, and those are under a bit of pressure as well. So, ICT in particular has gone up by 7 per cent—it's a worldwide phenomenon … post COVID, ICT is costing more. But critically, that operational budget line includes the project fund … So, in addition to the very fulsome update around the 9 per cent, there are other elements that make it 11.01 per cent overall."*[19]

**18.** Pan holwyd ef am gyllidebau'r Comisiwn yn y dyfodol, y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2025-26, dywedodd y Comisiynydd:

> *"Well, if you think of it logically, we've got to prepare for another additional 36 Members. You're not going to get the whole accommodation sorted in a year. We're going to decanter to the Siambr in Tŷ Hywel, so that's going to be a challenge that isn't going to happen in one budget year. Then we're going to have to move back. New Members' offices will need to be populated, and when new Members come in, there's going to be a whole load of induction and additional costs with that. So, the step change isn't a one-year step change, it's a two-year,*

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraffau 49-51
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraffau 82

> *two-and-a-half-year step change. What the aim would be though is to reach that steady state in the seventh Senedd."*[20]

## Dyraniad ôl-daliadau

**19.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys swm wedi'i glustnodi o £456,000 i ddarparu cyllid ar gyfer ôl-daliad posibl o'r addasiad y cytunwyd arno i fandiau cyflog is staff y Comisiwn er mwyn setlo trafodaethau cyflog 2024-25 a cheisio setlo'r cytundeb cyflog nesaf. [21] Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn hwyr yn cyflwyno ei Chyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2024-25, sydd fel arfer yn cynnwys ceisiadau cyllidebol atodol a wnaed gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, oherwydd Etholiad Cyffredinol y DU.[22]

**20.** Craffodd y Pwyllgor ar gais cyllidebol atodol y Comisiwn[23] ar 22 Mai.[24] Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Comisiwn i ofyn am ragor o wybodaeth.[25] Ymatebodd y Comisiwn ar 19 Gorffennaf, gan ddarparu gwybodaeth am sut yr oedd yn ymgysylltu â'r Aelodau i flaenoriaethu gwasanaethau.[26] Bydd y Senedd yn ystyried Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 ar 22 Hydref 2024 ac ystyrir y materion hyn ymhellach yn adroddiad y Pwyllgor.[27]

**21.** Pan ofynnwyd iddo beth yw effaith oedi Llywodraeth Cymru cyn gosod ei Chyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2024-25 ar broses y Comisiwn o bennu'r gyllideb, dywedodd y Comisiynydd:

> *"… so we gave evidence … in … May, on the supplementary budget. We were very pleased to have your approval of that and support, with some very clear recommendations for engaging with Members in the future. The Welsh Government's supplementary budget will be debated on 22 October, so we should see the supplementary budget cleared by then. I would hope that Members would follow the recommendation of the Finance Committee and support the supplementary budget, if it was a recommendation—I assume it was a supporting note, anyway. That would take out £456,000 from the draft budget,*

[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 203
[21] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 14
[22] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 14
[23] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol 2024-25: Memorandwm Esboniadol , Mai 2024
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Mai 2024
[25] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Senedd, 23 Mai 2024
[26] Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Gorffennaf 2024
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25, Hydref 2024

*because that would go in as back pay and would represent that saving then to the 2025-26 budget."*[28]

**22.** Eglurodd y Comisiynydd hefyd:

*"The impact it's had has been more on engagement with trade unions and the development of the framework for a three-year pay deal. Because of that, because we've been delayed with that, it's been very difficult to progress properly trade union negotiations … But we've been able to manage into the draft budget the amount of money we need, which I think was £456,000, to cover those costs. So, it's not been an insurmountable problem, and the benefit it will have is if, after 22 October, the supplementary budget is passed, then we could take that out, run the back pay, and carry on then with the deal with the trade unions, which should be moveable then and possible to continue."*[29]

## Arbedion ac Effeithlonrwydd

**23.** Yn wahanol i gyllideb 2024-25, nid oes targed yn y Gyllideb Ddrafft i nodi arbedion.[30]

**24.** Eglurodd y Comisiynydd fod y Comisiwn wedi gallu sicrhau arbedion mewn cyllidebau blaenorol drwy ohirio prosiectau seilwaith hanfodol[31] (ystyrir costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau yn fanylach o dan Bennod 5). Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd nad oedd hyn yn bosibl ar gyfer 2025-26, gan egluro:

*"… we've had in-year savings in the last couple of years, and I think that sponge has been squeezed probably as dry as you are going to be able to squeeze it without having a direct impact on what Members and members of the public see."*[32]

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Hydref 2024, paragraff 11
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Hydref 2024, paragraff 15
[30] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, Tabl 2
[31] Y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2024, paragraff 24
[32] Y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2024, paragraff 103

**25.** Ychwanegodd y Comisiynydd:

> *"… I've asked for a list of things we could cut from the £2 million that is there that isn't compulsory for us to spend, but it would have an impact on Members".* [33]

**26.** Aeth y Comisiynydd ymlaen i ddarparu rhestr o enghreifftiau o wasanaethau y gellid bod wedi'u torri:

> *"… things like Members' training and development—£115,000. … Members like to travel internationally. We could stop that. That would save £55,000. Staff training across the Senedd Commission. We could end staff training completely. Reactive maintenance. Well, if we stopped fixing the gate, it would save money, but it would impact on security. Members' travel. One of the things I'd be interested to explore, actually, is committee visits. Do committees really need to go on visits anymore when we've got Teams?*
>
> *…. And events, engagement and education—our outreach to schools, bringing schools in. We could end that. We'd save £100,000 … We could close the Senedd out of term time as well, out of sitting hours. We could prevent the building from being open during protests. There's a whole load of things that we could do that could bring in money, but every single one of them would diminish our ability to link with the public as a Parliament, and it would diminish, you as Members, your abilities to act as Members comparable to Parliaments such as the House of Commons or Holyrood.* [34]

**27.** Daeth y Comisiynydd i'r casgliad y byddai hyn yn gam yn ôl ond bod rhaid gwneud hyn os dyna'r hyn y mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Senedd ei eisiau.[35]

**28.** Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor hefyd:

> *"The Commission has taken the decision this year that to work on the kind of minimal savings you might be able to find that would directly impact Members that I've mentioned would take away from the work that is being done to deliver a Parliament fit for 2030. And I think if we start going down the route of*

[33] Y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2024, paragraff 103
[34] Y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2024, paragraff 104
[35] Y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2024, paragraff 104

> *savings, it will mean that we'd need to engage with Members and make sure that Members are happy with some of those savings that will be unpalatable."* [36]

## Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

**29.** Cyflwynwyd y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig gan y Comisiwn cyn cylch cyllidebol 2024-25 i nodi, deall a chostio pwysau costau yn y dyfodol cyn cyllidebu. Mae'r Comisiwn yn nodi mai ei ragdybiaeth ar gyfer y tymor canolig yw y bydd gofynion ariannu'r Comisiwn yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael.[37] Mae'n ychwanegu fel a ganlyn:

> *"Felly, mae angen i'r Comisiwn ddeall a lliniaru'r bwlch rhwng y ddau er mwyn parhau i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, gan gefnogi'r anghenion busnes craidd ar yr un pryd."*[38]

**30.** Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig treigl tair blynedd a Chynllun Gweithlu, gan gynnwys Sefydliad Targed ar gyfer niferoedd staffio parhaol (ystyrir costau sy'n ymwneud â'r gweithlu ym Mhennod 4). Wrth ei chymharu ag amcangyfrifon dros dro o Gyfanswm Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2025-26 a 2026-27,[39] mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn dangos cynnydd o £7.0 miliwn a £4.5 miliwn ar gyfer 2025-26 a 2026-27 o'i gymharu â'r blaenamcangyfrifon yn nogfen 2024-25.[40]

**31.** Pan ofynnwyd iddo sut mae'r Comisiwn yn nodi effeithlonrwydd o fewn ei brosesau cyllidebol, dywedodd y Comisiynydd:

> *"… the medium-term resourcing framework does exactly that … That's what it is there for. It only came in in 2022, so it's new, but it's a rolling three-year programme, and it is designed to do exactly that. I've looked at it in detail, and I'm convinced that it will continue to deliver savings once we reach a steady state, after the step change. But I'm not convinced that we can introduce those savings when we're asked to increase our work."*[41]

---

[36] Y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2024, paragraff 139
[37] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 12
[38] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 12
[39] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Medi 2023
[40] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 32
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 126

**32.** Rhoddodd y Prif Weithredwr enghreifftiau hefyd o sut mae'r Fframwaith yn nodi effeithlonrwydd:

> *"… when we went through our service planning exercise this year, we identified the need for 16 more staff members. So, we've ended up asking for four temporary staff members in addition. The rest of that pressure was absorbed within the organisation through the efficiency judgments that you're recommending. So, there's a lot of work that is already built into the bottom line, a lot of savings built into the bottom line that we have identified, as the Commissioner said, through the operation of our medium-term resourcing framework."* [42]

**33.** Cadarnhaodd y Comisiynydd nad oedd yn gallu darparu enghreifftiau o arbedion a wnaed o dan y Fframwaith yn y Gyllideb Ddrafft, ond eglurodd:

> *"… once we're into a steady state following the step change into the seventh Senedd, it will deliver savings, because that's its job".* [43]

**34.** Eglurodd y Comisiynydd hefyd sut roedd y Fframwaith wedi dylanwadu ar gynlluniau gwariant cyfredol y Comisiwn:

> *"At this point in time, it's telling us that if you want to deliver savings, they've got to be in those unpalatable areas. But what it does do is it gives us a clear assessment of the long-term future workforce needs, so it gives us that target. All we want in a budget, really, is predictability, and we haven't had that this year and next year, but the MTRF will deliver that predictability. It will give us the opportunity to identify where staff are lacking skills and development and may need experience and movement, and may need training …*
>
> *It'll give us very good succession planning … It also gives clear milestones for delivery, but they've got to be linked to the other outside pressures—like Senedd reform, like ways of working and Bay 32—that we've been tasked to deliver, and ad hoc committees that the Government and the Senedd want us to do."* [44]

[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 128
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 142
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 143

## Ymgysylltu â'r Aelodau

**35.** Eglurodd y Comisiynydd ei bod yn hynod bwysig ymgysylltu â'r Aelodau ynghylch y Gyllideb Ddrafft[45], ac eglurodd nifer o gamau a gymerwyd gan y Comisiwn i ymgysylltu â'r Aelodau yn gynnar cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft eleni:

> *"… one of the things we've done is set up a Members reference group, which is partly about the works in Tŷ Hywel, but we've also got a Siambr group as well to talk about adaptations to the Chamber and discuss those things in order for Members outside of the Commission to have a direct say … So, the shape of the Chamber has been driven by, not the Commission, but by Members who are not part of the Commission and not part of the Government even, to drive some of this stuff. And the same with the adaptations to Tŷ Hywel."*[46]

**36.** Dywedodd y Comisiynydd hefyd ei fod eisiau gweld gwell ymgysylltu nag o'r blaen oherwydd y cynnydd mawr sy'n gysylltiedig â'r Gyllideb Ddrafft, ac eglurodd ei fod ef, yn ogystal ag aelodau o dîm uwch-reolwyr y Comisiwn, yn trafod y Gyllideb Ddrafft gyda grwpiau plaid yn y Senedd cyn ei chyhoeddi. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… a detailed briefing paper was presented to groups … And some of the questions that were asked … really did help us inform some of the things we wanted to do. It also enabled me to identify those Members who had concerns and I had further conversations with them."*[47]

**37.** Ychwanegodd y Comisiynydd:

> *"What I'd like to do in future is perhaps have a formalised, codified process for consultation on the budget and, rather than doing it in September, perhaps do it in July, before Members go away for the summer so that they can think about it. And I think that having that process would enable Members to buy more closely into some of the decisions we've got."*[48]

**38.** Darparwyd rhagor o fanylion ynghylch dull y Comisiwn o ymgysylltu â'r Aelodau ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol mewn gohebiaeth gan y

[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 70
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 68
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 69
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 70

Comisiynydd, mewn ymateb i argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft 2024-25.[49]

## Barn y Pwyllgor

**39.** Mae'r Pwyllgor yn nodi Cyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2025-26 a bod hon yn gyllideb "newid sylweddol" gyda mwyafrif y cynnydd yn ofynnol i ddarparu Senedd fwy ym mis Mai 2026. Rydym hefyd yn cydnabod bod y Gyllideb Ddrafft yn rhoi ar waith y penderfyniad a wnaed gan y Senedd, drwy basio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) 2024[50] yn gynharach eleni (ystyrir costau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd yn fanylach o dan Bennod 3). Rydym hefyd yn nodi barn y Comisiynydd bod y cynnydd wedi'i gynnwys oherwydd pwysau anochel sydd i raddau helaeth y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Senedd gefnogi cais cyffredinol y Comisiwn am adnoddau yn 2025-26, yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion a amlinellir isod. Nid yw Peter Fox AS yn cytuno y dylai'r Senedd gefnogi'r gyllideb hon oherwydd ei fod yn gwrthwynebu egwyddor Diwygio'r Senedd ond fel arall mae'n cefnogi'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

**40.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Comisiwn yn parhau i gymhwyso'r Datganiad o Egwyddorion wrth baratoi ei gynigion cyllidebol, yn enwedig wrth gyfiawnhau'r cynnydd sylweddol yn ei gyllid ar gyfer 2025-26. Rydym hefyd yn nodi'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r cyllidebau sydd wedi'u clustnodi (a ystyrir ymhellach ym Mhennod 3) ac yn y tablau sy'n amlinellu manylion y gyllideb a gynhwysir yn Atodiad 2 o'r ddogfen Cyllideb Ddrafft, [51] yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol am gostau gweithredol a ddarparwyd gan y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Cyllid Dros Dro yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

**41.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn bod cael cyfnod mor fyr i graffu ar gyllideb y Comisiwn ac adrodd arno yn ei gwneud hi'n anodd pennu a chael dealltwriaeth o'r hyn sy'n sbarduno newidiadau mewn costau ar draws y Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd inni gael y sicrwydd yr hoffem ei gael o ran pa mor briodol yw cyllideb flynyddol y Comisiwn yn gyffredinol, yn enwedig eleni o ystyried y cynnydd mawr dan sylw.

**42.** Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn nodi arwydd cynnar y Comisiwn o natur ei gynigion cyllidebol y tu hwnt i 2025-2026. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor eisiau cael gwybod sut mae'r cyllidebau hyn yn cael eu datblygu i gael gwell syniad o sut

[49] Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Gorffennaf 2024
[50] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) (dsc 4)
[51] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 32

olwg fydd ar gyllideb sefydlog cyson y tu hwnt i etholiad 2026 ac i sicrhau dull clir a thryloyw o gyllidebu yn y dyfodol.

**43.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cael gohebiaeth gan y Comisiwn yn gofyn i'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio fel y gallai amserlen cyllideb y Comisiwn gael ei symud i ddyddiad diweddarach.[52] Mae'r llythyr hefyd yn ailadrodd barn a fynegwyd gan y Comisiynydd blaenorol yn ystod sesiwn dystiolaeth y llynedd ar y Gyllideb Ddrafft y byddai'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Pwyllgor Busnes edrych eto ar y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllidebol y Comisiwn gan fod y cylch cyllidebol presennol ymhell o fod yn ddelfrydol.[53]

**44.** Mae'r Pwyllgor wedi mynd ar drywydd y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru ar ran y Comisiwn[54] ac yn nodi bod trafodaethau'n parhau.[55] Yn y cyfamser, credwn fod camau y dylai'r Comisiwn eu cymryd i wella'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r Pwyllgor ar ei gynlluniau cyllidebol cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei gosod, ar neu cyn 1 Hydref. Felly, rydym yn galw ar y Comisiwn i fynd i sesiynau craffu rheolaidd i drafod sut mae paratoadau cyllidebol yn datblygu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

**45.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn wedi gorfod paratoi ei Gyllideb Ddrafft heb wybod a fydd y Senedd yn cytuno ar ei gais cyllidebol atodol, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2024-25. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ystyried y cais hwn ac wedi ysgrifennu at y Comisiwn yn nodi ei gytundeb mewn egwyddor i ddyrannu cronfeydd o'r fath ym mis Mai 2024.[56]

**46.** Rydym yn derbyn bod y costau hyn wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft fel mesur wrth gefn rhag ofn na chytunir ar y gyllideb atodol ac yn nodi y bydd y costau'n cael eu tynnu o gyllideb derfynol y Comisiwn, os bydd y Senedd yn cytuno ar y cais hwn ar 22 Hydref.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a ddarparwyd ynghylch arbedion yn ystod y flwyddyn a wnaed yn 2023-24 a sut y bwriedir i Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig y Comisiwn sbarduno effeithlonrwydd. Rydym hefyd yn cydnabod bod y Fframwaith yn cael effaith ar y ffordd y mae'r Comisiwn yn rheoli ei gyllideb a'i bod wedi'i chynllunio i sicrhau arbedion. Rydym yn nodi bod y Comisiwn wedi

---

[52] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 11 Rhagfyr 2023
[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2023, paragraff 36
[54] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 4 Gorffennaf 2024
[55] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 1 Awst 2024
[56] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Senedd, 23 Mai 2024

rhoi copi o'r Fframwaith i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fel dogfen breifat,[57] ac yn gofyn a ellid ei rannu hefyd â'r Pwyllgor Cyllid.

**48.** Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau a roddodd y Comisiwn am beidio â phennu targed arbedion yn ei Gyllideb Ddrafft ac y byddai torri meysydd yn y gyllideb ar gyfer 2025-26 yn gam yn ôl. Fodd bynnag, er ein bod yn cytuno bod y diffyg arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn ddealladwy oherwydd ehangu'r Senedd, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol cynnwys targedau gyda'r nod o sicrhau arbedion i atal diwylliant o hunanfoddhad rhag datblygu o fewn y Comisiwn. Mae'r Datganiad o Egwyddorion yn ei gwneud yn glir ei fod yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol "geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus" [58] a chredwn na ddylai'r Comisiwn fod yn rhydd rhag yr egwyddor hon oherwydd ehangu'r Senedd ac y dylai fynd ati i geisio gostyngiadau yn ei linellau cyllidebol lle bynnag y bo modd.

**49.** Fel unrhyw sefydliad arall yn sector cyhoeddus Cymru, mae angen i'r Comisiwn fod yn ymwybodol o'r rhagolygon economaidd ehangach wrth reoli ei gyllideb ac mae angen iddo ddangos sut mae'n sicrhau arbedion ochr yn ochr ag unrhyw gynnydd yn ei gyllideb. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Comisiwn allu dangos sut y ceisir ac y gwireddir arbedion yn flynyddol.

**50.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylid defnyddio'r newidiadau sylweddol i gyllideb y Comisiwn a ddaw yn sgil Diwygio'r Senedd fel cyfle i wella prosesau sy'n ymwneud â sicrhau arbedion. Rydym eisoes wedi argymell bod y Comisiwn yn ceisio gwella prosesau o ran gwneud arbedion yn barhaus yn flynyddol.[59] Credwn fod hyn yn bwysicach nag erioed o ystyried y cynnydd mewn costau sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft eleni.

**51.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerwyd gan y Comisiwn i ymgysylltu â'r Aelodau a grwpiau plaid yn y Senedd cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft eleni. Rydym hefyd yn croesawu natur agored y Comisiwn yn ogystal â'i ymrwymiad i sefydlu prosesau ar gyfer ymgysylltu â'r Aelodau ynghylch y gyllideb, yn enwedig o ystyried y cynnydd sylweddol a gynhwysir ar gyfer 2025-26 a dros dro ar gyfer 2026-27. Credwn y dylid gwneud y dull hwn yn ffurfiol yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys adeiladu mewn digon o amser i sicrhau y gall safbwyntiau a fynegir cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ddylanwadu ar ganlyniadau cyllidebol.

[57] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Agenda, 9 Hydref 2024
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Datganiad o Egwyddorion, Gorffennaf 2021
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25, Hydref 2023

**52.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Comisiwn am roi arwydd cynnar o natur ei gynigion cyllidebol y tu hwnt i 2025-2026. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor eisiau cael gwybod sut mae'r cyllidebau hyn yn cael eu datblygu i gael gwell syniad o sut olwg fydd ar gyllideb sefydlog cyson y tu hwnt i etholiad 2026 ac i sicrhau dull clir a thryloyw o gyllidebu yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2025-26' ac mae'r rhan fwyaf o'i aelodau yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon, yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn cynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r Pwyllgor i drafod sut mae paratoadau cyllideb y Comisiwn yn datblygu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd, yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion, yn esbonio:

- sut mae'n ceisio gwella prosesau a sicrhau arbedion;
- sut mae prosesau i sicrhau arbedion wedi newid yng ngoleuni'r newidiadau i gyllideb y Comisiwn a achosir gan Ddiwygio'r Senedd;
- sut y bydd y dull hwn yn datblygu y tu hwnt i flwyddyn ariannol 2025-26;

a bod cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cyllid ar y materion hyn cyn gosod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhannu copi o'i Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig â'r Pwyllgor i'w alluogi i ddeall sut mae'n sbarduno arbedion a dwyn prosesau o'r fath i gyfrif.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn ystyried ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd a Grwpiau Plaid mewn ffordd fwy ffurfiol cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol a bod digon o amser yn cael ei roi i sicrhau bod canlyniadau'r ymgysylltu hwn yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad Comisiwn y Senedd i dynnu'r £456,000 sy'n ymwneud ag ôl-daliadau staff o'i gynigion cyllidebol ar gyfer 2025-26 os bydd y Senedd yn cymeradwyo Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 ar 22 Hydref, ac mae'n disgwyl i'r ffigurau hyn gael eu tynnu o gyllideb derfynol y Comisiwn cyn i'r Senedd ei hystyried yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref.

# 3. Cyllidebau wedi'u clustnodi

**53.** Mae tair cyllideb wedi'u clustnodi yn y Gyllideb Ddrafft, gydag unrhyw danwariant yn erbyn y cyllidebau hyn i'w dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru:

- Diwygio'r Senedd (£6.482 miliwn);
- Ffyrdd o Weithio (£2,396 miliwn); a
- Chostau'r etholiad (£1 miliwn).[60]

**54.** Mae darpariaeth ôl-daliadau 2024-25 o £456,000 sy'n gysylltiedig â chais Atodol y Comisiwn ac a ystyrir yn fanylach ym Mhennod 2, hefyd wedi'i chynnwys fel cyllideb wedi'i chlustnodi.[61] Fel y nodwyd o dan Bennod 2, mae hwn yn fesur rhagofalus gan y Comisiwn a dim ond pe na bai'r cais am y Gyllideb Atodol yn cael ei awdurdodi.

## Diwygio'r Senedd

**55.** Mae cyllideb 2025-26 ar gyfer Diwygio'r Senedd o £6.482 miliwn wedi'i rhannu yn ôl:

- Costau cyfalaf o £3.874 miliwn;
- Costau staff ychwanegol o £1.776 miliwn, sy'n ymwneud â 47.9 o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (yn ôl y Gyllideb Ddrafft, mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif gwreiddiol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o 59.9[62]);
- Costau nad ydynt yn ymwneud â staff o £445,000; a
- Swyddi a gymeradwywyd cyn 2025-26 o £387,000.[63]

**56.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi:

> *"Ar gyfer 2025-26, y cynnydd disgwyliedig yng nghostau Diwygio'r Senedd (gan gynnwys gwaith Siambr a Thŷ Hywel) yw £3.9 miliwn. (Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant a dyfarniadau cyflog, amcangyfrif gwreiddiol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar*

[60] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalennau 17-18
[61] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Atodol 2024-25: Memorandwm Esboniadol , Mai 2024
[62] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 17
[63] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 18

*gyfer 2025-26 oedd £3.37 miliwn.) Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4.67% (wedi'i addasu 5.39%) ar 2024-25."*[64]

**57.** Pan ofynnwyd iddo egluro pam mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys costau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd sy'n uwch na'r amcangyfrifon yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) 2024,[65] eglurodd y Comisiynydd:

> *"From the RIA … the staffing costs from that have gone down. So, we've made the case there: 59.9 full-time equivalent to 47.9 FTE, which is a £400,000 saving in that figure, roughly.*
>
> *Where the costs have gone up has been in capital costs, but the net increase from the RIA to the draft budget is £400,000. That is not a huge figure for a capital project estimate."*[66]

**58.** Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor fod y cynnydd mewn costau cyfalaf yn ymwneud â'r gwaith sy'n ofynnol i ehangu'r Siambr i ddarparu ar gyfer 96 o Aelodau:

> *"The Senedd was originally designed to be able to be expanded without too much work, but it was designed to be expanded to 80 Members. So, what you would do is take out a row of door frames and change it slightly. You still could have done that with 96, but you would have needed benches, so you would have had House of Commons or Stormont-style benches in the Chamber … Members expressed a view through the consultation process that they did not want that, because it would mean that not every Member would have a place; they'd have to squash up and the information technology and speaking systems would be inferior for backbenchers compared to frontbenchers."*[67]

**59.** Ychwanegodd y Comisiynydd:

> *"… it was decided through consultation with Members that the public would be better served by Members having their own desk, their own facility, and being able to be viewed and*

[64] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 10
[65] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) (dsc 4)
[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraffau 145-146
[67] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 147

*scrutinised individually in the Chamber by people in the gallery…"*[68]

## Ffyrdd o Weithio - Bae Caerdydd 2032

**60.** Costau sy'n ymwneud â Ffyrdd o Weithio yn y Gyllideb Ddrafft yw £2.396 miliwn ac maent yn cynnwys Ffrwd Waith Bae Caerdydd a Ffrwd Waith Ranbarthol.[69]

### Bae Caerdydd 2032

**61.** O ran prosiect Bae Caerdydd 2032, mae dogfen y Gyllideb Ddrafft yn nodi:

> *"Bydd y prosiect hwn yn darparu llety diogel tymor hir i'r Comisiwn ar ôl diwedd 2032 les Tŷ Hywel (sydd ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer swyddfeydd a chyfleusterau'r Aelod, staff y Comisiwn a Llywodraeth Cymru). Megis dechrau y mae'r prosiect hwn ond mae ganddo amserlen dynn i sicrhau y bydd y llety'n barod erbyn 2032."*[70]

**62.** Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 fod y Comisiwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am brosiect Bae Caerdydd 2032 a sut y byddai'r Aelodau'n cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu[71] Ym mis Rhagfyr 2023, cymeradwyodd y Comisiwn Achos Amlinellol Strategol.[72] Mae'r Comisiwn wedi bod yn bresennol mewn sesiynau preifat gyda'r Pwyllgor ynghylch prosiect Tŷ Hywel 2032 ar 6 Mawrth[73] a 18 Medi 2024.[74] Rhoddodd y Comisiynydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am brosiect Bae Caerdydd 2032, gan ddweud:

> *"There's a lot to be said on Bay 32 at the moment. We've moved from a single procurement source to three potential procurement sources, and the idea is that that will, over 50 years, reduce the cost, because you'll be able to find better procured services through a series of choices than you would if you had to go with a monopoly, although the procurement process will be a bit costly in the short run because obviously*

[68] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 147
[69] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 20
[70] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 19
[71] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25, Hydref 2023, Argymhelliad 7
[72] Comisiwn y Senedd, Cofnodion, 11 Rhagfyr 2023
[73] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnodion, 6 Mawrth 2024
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnodion, 18 Medi 2024

> *you're dealing with three instead of one. I think that's a net saving over time."*[75]

**63.** Pan ofynnwyd iddo a oedd y Comisiwn, fel tenant adeilad Tŷ Hywel, yn gyfrifol am ddadfeilio ac atgyweirio, dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd wrthym:

> *"As the anchor tenant, it's our responsibility while we're here, and we undertake reactive maintenance all of the time across the estate. But obviously, if we were to decide not to renew the lease, then we would be into a negotiation around dilapidations. But as I say, that is a negotiation."*[76]

**64.** O ran costau, cadarnhaodd y Comisiynydd:

> *"… the Bay 32 project will absorb a lot of this in that the ongoing needs for a sustainable and modern building will be addressed through that."*[77]

**65.** Pan ofynnwyd iddo pa rôl fydd gan y Pwyllgor mewn penderfyniadau am brosiect Bae Caerdydd 2032, eglurodd y Comisiynydd:

> *"You've got your statutory role, you can call us in at any time for a discussion on the budget, but I think we should be more structured and strategic than that. What I'd like to be able to do is come here and give a direct evidence session on Bay 32."*[78]

**66.** Dywedodd y Comisiynydd wrth yr Aelodau hefyd:

> *"I would suggest perhaps the committee holds a session with me and staff at a later date when the process has gone down the road a little bit further. I'd be happy to do something public on the record, but I think perhaps precede it with a technical briefing that covers the commercially confidential aspects of it. The commercially confidential aspects we would not want to discuss in public because that would damage our ability to deliver, but we could certainly then have a public session on the broader aspects and the public interest bits that demonstrate*

[75] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 156
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 33
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 38
[78] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 156

> *value for money. So, I'm making an offer to you now: if you want to call me in for that, I'd be happy to do it.”*[79]

### Adolygu'r Pierhead

**67.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyfeirio at Brosiect Adolygu'r Pierhead o fewn y gyllideb Ffyrdd o Weithio, a chyfanswm y costau oedd £130,000 ar gyfer 2024-25. [80]

**68.** Pan holwyd ef am y prosiect hwn, dywedodd y Comisiynydd wrth yr Aelodau:

> *“The Pierhead project is currently going through an options analysis. We've already worked on the north Wales office, the Siambr and Senedd building, Tŷ Hywel—all these are covered in the budget. So, we need to start looking now at an options analysis for the use of the Pierhead. That options analysis is going to include expanding commercial use. I think if there's a building that really has potential for expanding commercial use, it's the Pierhead, because of its iconic status.”*[81]

**69.** Ychwanegodd y Comisiynydd ei bod yn ddyddiau cynnar ac y bydd yn cael ei gwblhau yn y ddau neu dri mis nesaf. [82]

## Barn y Pwyllgor

**70.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffordd glir o gyflwyno costau sy'n ymwneud â sicrhau cynnydd yn nifer yr aelodau o'r Senedd yn y Gyllideb Ddrafft. Yn benodol, rydym yn parhau i gefnogi'r tryloywder a ddarperir drwy wahanu cyllidebau wedi'u clustnodi ar gyfer costau Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio a chostau etholiad. Fel y nodwyd yn ein barn o dan Bennod 2, mae ehangu'r Senedd yn gyfystyr â newid sefydliadol sylweddol a fydd yn golygu costau uwch. Credwn y dylid cyflwyno'r costau hyn yn y ffordd gliriaf bosibl i'w galluogi i gael eu dwyn i gyfrif a chredwn fod y Gyllideb Ddrafft yn cyflawni'r nod hwn.

**71.** Rydym hefyd yn nodi bod costau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd yn y Gyllideb Ddrafft wedi cynyddu o'r amcangyfrifon a gyflwynwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol [83] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) 2024,[84] a

[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 157
[80] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 20
[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 166
[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 166
[83] Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Medi 2023
[84] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) (dsc 4)

ystyriodd y Pwyllgor yn ystod ei thaith drwy'r Senedd.[85] Nodwn fod y costau hyn yn cyfateb i gynnydd sylweddol yng nghanran costau Diwygio'r Senedd, ac rydym hefyd yn cydnabod eu bod yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan fod costau staffio diwygio'r Senedd yn 2025-26 yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**72.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd yn ystod y sesiwn dystiolaeth mewn perthynas â phrosiect Bae Caerdydd 2032, sy'n adeiladu ar yr wybodaeth ddefnyddiol a rannwyd gan y Pwyllgor mewn dwy sesiwn dechnegol breifat ynghylch y prosiect a gynhaliwyd ar 6 Mawrth.[86] a 18 Medi.[87] Er bod y Pwyllgor yn cael y sesiynau briffio technegol preifat hyn yn ddefnyddiol, rydym yn croesawu parodrwydd y Comisiynydd i ymddangos gerbron y Pwyllgor mewn sesiwn gyhoeddus i roi tystiolaeth ar y prosiect hwn.

**73.** Rydym yn cydnabod y bydd agweddau ar y prosiect yn fasnachol sensitif. Pan fo'n bosibl, mae'r Pwyllgor yn ffafrio sesiynau tystiolaeth cyhoeddus i sicrhau bod y prosiect yn datblygu gydag uniondeb ac mewn modd tryloyw fel bod y Pwyllgor a'r cyhoedd yn gyffredinol yn gallu deall mwy am y prosiect a'r costau cysylltiedig.

**74.** Gan ei bod yn amlwg bod y prosiect yn symud ymlaen i gam lle mae opsiynau manylach yn cael eu hystyried, ac wrth i amcangyfrifon costau gael eu datblygu, mae'n bwysig bod y Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd yn cael gwybod am ddatblygiadau yn rheolaidd. Mae angen eglurder hefyd ynglŷn â phwy fydd yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a sut y bydd y Pwyllgor a'r Aelodau ar gael yn fwy cyffredinol i ddylanwadu ar ystyriaeth y Comisiwn a chyfrannu ati'n ystyrlon. Mae hyn yn cynnwys amserlenni a syniad ynghylch pa bryd y bydd Aelodau'r Senedd yn gallu pleidleisio ar y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn.

**75.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi sôn am strategaeth ystadau'r Comisiwn ac yn enwedig ei rwymedigaethau les ac i ba raddau y mae'n gyfrifol am gynnal a chadw adeilad Tŷ Hywel.[88] Mae'r Pwyllgor yn nodi rhwymedigaethau'r Comisiwn i atgyweirio a chynnal a chadw ystad Tŷ Hywel yn ystod tymor y brydles a bod y cyfrifoldeb am ddadfeilio yn destun trafod rhwng y Comisiwn a'r landlord os na fydd y les yn cael ei hadnewyddu. Fodd bynnag, rydym yn galw am ragor o eglurder ar y mater hwn ac yn gofyn i'r Comisiwn roi manylion ynghylch

---

[85] Y Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Ionawr 2024
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnodion, 6 Mawrth 2024
[87] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnodion, 18 Medi 2024
[88] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25, Hydref 2023, Argymhelliad 7

trefniadau ar gyfer cytuno ar unrhyw daliadau dadfeilio mewn sefyllfa pan na fo'r Comisiwn yn estyn y les nac yn prynu Tŷ Hywel. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi y gellir amsugno'r costau hyn o fewn prosiect Bae Caerdydd 2032, ond nad yw hyn yn cael ei esbonio'n llawn yn y Gyllideb Ddrafft ac rydym yn galw am eglurder ar y pwynt hwn.

**76.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cefnogi Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio yn golygu cyflawni prosiectau cyfalaf sylweddol sy'n peri risg uchel ac sy'n gymhleth ac yn ddrud. Oherwydd eu heffaith debygol ar gynlluniau cyllidebol y Comisiwn yn 2025-26 a thu hwnt, mae'r Pwyllgor yn galw am ragor o eglurder ar strategaeth ystadau hirdymor y Comisiwn, ac yn gofyn am gynllun cyfalaf strategol ar gyfer y 5 i 10 mlynedd nesaf i'w ddarparu, gan gynnwys unrhyw amcangyfrif o gostau, os yw'n hysbys ar hyn o bryd.

**77.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd mewn perthynas â phrosiect Adolygu'r Pierhead ac mae'n cydnabod bod hyn yn gynnar yn y gwaith datblygu ac y bydd y canlyniadau yn hysbys mewn dau neu dri mis. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod gan adeilad y Pierhead botensial masnachol ac mae'n gofyn ei fod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i sicrhau y bydd unrhyw gynlluniau'n manteisio i'r eithaf ar y defnydd o'r rhan hon o ystad y Senedd a'i gwerth am arian.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i ddangos bod cyllidebau wedi'u clustnodi ar wahân ac yn nodi yn nogfennau'r gyllideb sut mae costau Diwygio'r Senedd yn cymharu ag amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yng nghyllidebau'r dyfodol.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn mynychu sesiynau tystiolaeth cyhoeddus mewn perthynas â phrosiect Bae Caerdydd 2032, gyda'r sesiwn gyntaf yn digwydd yn fuan ar ôl cytuno ar yr achos busnes amlinellol.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi gwybodaeth am sut y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â phrosiect Bae Caerdydd 2032 yn cael eu gwneud, gan gynnwys pryd y bydd Aelodau'r Senedd yn cymryd rhan mewn penderfyniadau o'r fath a'r amserlenni cysylltiedig.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn egluro:

- pa fecanweithiau a fydd ar waith i gytuno ar daliadau dadfeilio ar ddiwedd les Tŷ Hywel;

- sut mae'n sicrhau bod unrhyw brosiectau presennol neu brosiectau yn y dyfodol ar yr adeilad yn anelu at leihau rhwymedigaethau o'r fath; a
- sut y bydd y costau hyn yn cael eu hamsugno gan brosiect Bae Caerdydd 2032 ac a fydd costau o'r fath yn cael eu clustnodi yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi gwybodaeth am ei strategaeth ystadau dros y 5 i 10 mlynedd nesaf erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2025-26, gan gynnwys manylion ynghylch unrhyw brosiectau mawr sy'n cael eu cynnal o fewn yr amserlen honno a'r costau cysylltiedig, pan fo'n bosibl.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am Brosiect Adolygu'r Pierhead o fewn tri mis ar ôl i'r adolygiad ddod i ben.

# 4. Y gweithlu

## Effaith Cytundebau Cyflog

**78.** Mae dogfen y Gyllideb Ddrafft yn cadarnhau bod "y rhan fwyaf o wariant refeniw weithredol y Comisiwn yn ymwneud â chostau staff" ac na chytunwyd ar gytundeb cyflog ar gyfer 2025-26 eto.[89] Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog o 5 y cant yn y gyllideb staffio ar gyfer 2025-26. Y dybiaeth ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol yw 3 y cant.[90]

**79.** Nododd y Comisiynydd y dyfarniad cyflog i staff fel un o'r pedwar math o bwysau allweddol yn y Gyllideb Ddrafft, gan egluro:

> *"… we've had a Government in Westminster that has offered, across the board, 5 per cent to Government workers, and so has the Welsh Government offered the same pay award. Now, our trade unions are saying to us that it is not unreasonable, then, for them to ask for the same award, and, in the Government of Wales Act 2006, it also says that the Senedd Commission should be broadly comparable pay to Welsh Government staff. So, we couldn't justify not negotiating that 5 per cent as well."*[91]

**80.** Rhoddodd y Comisiynydd ragor o wybodaeth i esbonio sut mae'r dyfarniadau cyflog i staff y Comisiwn yn ymwneud â chytundebau cyflog y cytunwyd arnynt eisoes â staff yn Llywodraeth Cymru:

> *"… if a deal is being offered at 5 per cent to Welsh Government staff, we can't stick at 3.1 per cent within the Senedd Commission, because it would go against the principles of the Government of Wales Act, and you would see, as we said in the supplementary budget, that our mission is to bring parity to the lowest paid staff in the Commission with the lowest paid staff in the Welsh Government—it would end us being able to achieve that. And I think that that wouldn't be either within the principles of the law nor would it be acceptable to trade unions or staff."*[92]

---

[89] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 14
[90] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 17
[91] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 24
[92] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 49

**81.** Dywedodd y Comisiynydd wrthym mai'r ddarpariaeth yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y dyfarniad cyflog yw £1.5 miliwn, sef cynnydd o 5 y cant[93] ond dywedodd y canlynol:

> *"… this is subject to negotiation as well; don't forget that the trade unions still have a mandate for strike action within the Commission—not within the Welsh Government, but within the Commission—and those negotiations are ongoing. What we want to do is to get to a three-year cyclical stable pay deal."*[94]

**82.** Ychwanegodd y Comisiynydd y byddai hyn yn gwneud y gyllideb yn llawer mwy sefydlog a rhagweladwy ac na fydd angen cyllidebau atodol yn y dyfodol i ymdrin â'r pethau hyn, ac na fydd pethau annisgwyl yn codi.[95]

**83.** Cadarnhaodd y Comisiynydd hefyd:

> *"There are other issues, of course, within that, which are pensions and also the increments between staff levels, because we've needed people to be able to progress up their pay scales … So, the overall staff budget increase comes in at 9.06 per cent, not just the 5 per cent."*[96]

**84.** Cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan gangen y Senedd o Undeb PCS ar drafodaethau cyflog ar 7 Hydref 2024.[97] Nododd:

> *"The PCS Senedd Commission Branch … welcomes the inclusion of a 5% pay award to staff for 2025-26 and will not oppose its implementation. PCS has been in dispute with the Commission since the autumn of 2022 and has successfully achieved a mandate each time it has balloted its members. Its third successive strike mandate is still active. Although the award is not likely to be sufficient to end the dispute formally, it is a step in the right direction and should to some degree lessen the significant real terms pay cut suffered by staff in recent years. If this budget is passed by the Senedd, the Branch will look to engage with the Commission on future years, to see whether an*

[93] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 64
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 64
[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 64
[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 50
[97] Llythyr oddi wrth Undeb PCS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 7 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

*agreement can be found to limit uncertainty for staff and the institution."*[98]

## Cynllunio'r Gweithlu

**85.** Fel y crybwyllwyd ym Mhennod 2, mae'r fframwaith yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig treigl tair blynedd a Chynllun Gweithlu, gan gynnwys Sefydliad Targed ar gyfer niferoedd staffio parhaol. O fewn y Fframwaith, nod cynllun y gweithlu yw rheoli ac addasu lefelau staffio i feysydd o angen a:

> *"Bydd hyn yn gofyn am ymagwedd soffistigedig ac aeddfed at fapio sgiliau ac ystwythder wrth recriwtio a lleoli staff. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni symud i Senedd fwy ac esblygu ein gofynion staff ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg ac yn benodol, defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ategu ein hadnoddau."*[99]

**86.** Eglurodd y Comisiynydd sut roedd y Fframwaith yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â chostau staff:

> *"We haven't got a redundancy or a staff reduction policy, but we have got a policy whereby the medium-term resource framework is continually analysing the effectiveness of staff. So, the medium-term resource framework … It's continually, on a three-year rolling basis, reviewing where staff are deployed, and workforce planning is a fundamental part of that."*[100]

**87.** Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd wrth yr Aelodau fod hyn yn heriol ar hyn o bryd oherwydd y gellid dod o hyd i ostyngiadau yn nifer y staff dros broses tair blynedd pe bai honno'n sefyllfa sefydlog ond dywedodd y canlynol:

> *"… out of 536 staff, we've only increased by four in the last year. But we've been tasked by the Senedd to increase the size of the Senedd."*[101]

**88.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr:

> *"… when we went through our service planning exercise this year, we identified the need for 16 more staff members. So,*

[98] Llythyr oddi wrth Undeb PCS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 7 Hydref 2024
[99] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 17
[100] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 124
[101] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 124

> *we've ended up asking for four temporary staff members in addition. The rest of that pressure was absorbed within the organisation through the efficiency judgments that you're recommending. So, there's … a lot of savings built into the bottom line that we have identified … through the operation of our medium-term resourcing framework."*[102]

**89.** Pan ofynnwyd iddo a oedd gan y Comisiwn unrhyw gynlluniau i lefelu ei strwythur staffio i sicrhau arbedion, dywedodd y Comisiynydd:

> *"It's a really good point. One of the things I first asked for when I became a Senedd Commissioner was an organic structure of the organisation. It isn't that hierarchical, in that there are many layers, but you do get a lot of middle-band rather than lowest band staff, and that's because you've got committee clerks, legal experts, researchers—who are key and fundamental to the work we do—that are on the higher level of the organisation. So, it's more like a bulge in the organisation rather than a triangle. But we wouldn't be able to do our work without that."*[103]

**90.** Ychwanegodd y Comisiynydd:

> *"And I think if you start talking, when we go into Senedd reform, about reducing clerking teams and things like that, when, actually, we're going to have an increased-size Parliament, that becomes really difficult, doesn't it, because you're going to have more committees. You're only going to be rehiring staff again. So, if you went through flattening the structure, you'd be going through redundancy programmes. Redundancy programmes cost money. And you could, then, be rehiring these staff later when Senedd reform happens."*[104]

**91.** O ran y pwynt hwn, eglurodd y Prif Weithredwr hefyd:

> *"… we do wish to reassure ourselves from time to time that we are comparable with similar organisations, and we did have a look … at the comparison between our senior structure and other Parliaments in the UK, and that gave us some comfort*

[102] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 128
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraffau 119-120
[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraffau 119-120

> *that our structure is typical of parliaments and is unremarkable in that sense. And so I'd be happy to share that note, if it was useful."*[105]

## Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial

**92.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi y bydd y Comisiwn yn esblygu ei ofynion staff "ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg ac yn benodol, defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ategu ein hadnoddau". [106]

**93.** Cadarnhaodd y Comisiynydd fod Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cael effaith bendant iawn[107] ac egluro sut roedd y Comisiwn yn mynd ati i ddefnyddio'r dechnoleg hon:

> *"You will see that the head of communications has been to groups to talk about what is happening with AI. There is an AI governance group, which is chaired by the head of legal services, that looks at the risks involved and some of the consequences for the way the Senedd Commission does its work, and who holds the information that AI might generate."*[108]

**94.** Ychwanegodd y Comisiynydd:

> *"… there's also an AI opportunities group, which is chaired by the director of communications and engagement, that looks at what are the opportunities we can bring into this. And I know there are Members in every group that are fascinated by these things … and therefore I think it would be helpful for Members to engage with that."*[109]

**95.** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd fod costau AI i'r Comisiwn yn £15,000 am drwyddedu[110], gan ychwanegu:

> *"… it's quite a low amount because it's within the Microsoft package that we already have as an organisation. We're just rolling out licensing now on a pilot basis, so the ask in the*

[105] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 129
[106] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 17
[107] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 187
[108] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 187
[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 192
[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 197

*budget is relatively low at this point, but it's going to develop over time, I'm sure.”*[111]

## Llesiant Staff

**96.** Yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2024-25, argymhellodd y Pwyllgor fod y Comisiwn yn parhau i gynnal arolwg rheolaidd o staff i fonitro effaith llwythi gwaith, gan gynnwys llesiant meddyliol ac ariannol staff, ac yn rhoi canlyniadau ymarferion o'r fath i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2023-24.[112]

**97.** Rhoddodd y Comisiwn grynodeb o ganlyniadau o'i arolwg pwls ym mis Mawrth 2024 o'i gymharu â chanlyniadau hydref 2023, yn ogystal â nifer y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r rhain, mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor ym mis Medi 2024.[113]

**98.** Dywedodd y Comisiynydd wrth yr Aelodau fod y gostyngiad mewn hyfforddiant staff a'r rhewi recriwtio yn cael effaith ar lesiant.[114] Rhoddodd y Prif Weithredwr ragor o wybodaeth am y pwynt hwn:

> *“We have noticed a definite negative impact on staff well-being as a result of the recruitment pauses that we had to introduce to balance the books last year … when we surveyed staff about the effect of this on their well-being, over a third of them said that there had been a negative effect from this measure.”*[115]

**99.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr:

> *“We also saw in the autumn of 2023 … a peak in staff reporting that they felt they had too much work to do, which was followed by a rise in sickness absence in the following months, and of course that's a graphic illustration of the importance of enabling staff to operate at peak productivity and not overburdening them. This has been raised with us formally by the unions as well, and so it's something we're very much taking forward.”*[116]

[111] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 197
[112] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25, Hydref 2023, Argymhelliad 6
[113] Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 23 Medi 2024
[114] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 180
[115] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 186
[116] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 186

**100.** Cadarnhaodd y Prif Weithredwr hefyd mai'r elfen fwyaf o bell ffordd mewn absenoldeb salwch yw iechyd meddwl.[117]

**101.** O ran y camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn, dywedodd y Prif Weithredwr:

> *"We have a well-being strategy. All our senior leaders in the senior leadership team have signed up to a well-being charter, and each service area now has a well-being plan. So, we have a suite of resources available. We have an equalities network that we call Mindful, which helps staff balance work-life matters."*[118]

**102.** Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod cyfraddau absenoldeb salwch wedi gwella, sy'n galonogol[119] a chadarnhau:

> *"We're in the middle of surveying ... and so we'll have the results of that in a month or so, and that will give us a good snapshot of how well our well-being measures are working and whether there are gaps that we need to fill in the coming months and years."*[120]

## Barn y Pwyllgor

**103.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cytundeb cyflog ar gyfer staff y Comisiwn yn cael ei drafod gydag undebau llafur ar hyn o bryd a bod y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys dyfarniad cyflog o tua phump y cant. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi rhwymedigaethau'r Comisiwn i sicrhau bod telerau ac amodau cyflogaeth ei staff yn unol yn fras â thelerau ac amodau aelodau staff Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[121] a bod y Comisiwn yn anelu at gadw cydraddoldeb â lefelau cyflog Llywodraeth Cymru yn unol â'r gofyniad hwn. Rydym hefyd yn nodi gohebiaeth gydag Undeb PCS ar y mater hwn.[122]

**104.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi datgan na all fynegi barn am faterion gweithredol o fewn y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol y mae uwch-arweinwyr yn gyfrifol amdanynt o fewn y sefydliadau hynny.[123], ac felly nid yw'n briodol i'r Pwyllgor fynegi safbwynt ar faterion sy'n ymwneud â chyflog staff y Comisiwn. Fodd

---

[117] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 186
[118] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 187
[119] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 186
[120] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 186
[121] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Pennod 32) Atodlen 2, paragraff 3(4)(b)
[122] Llythyr oddi wrth Undeb PCS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 7 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)
[123] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at ganghennau PCS a Prospect yn Archwilio Cymru ynghylch cyflog staff, 22 Tachwedd 2022

bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi cynlluniau'r Comisiwn i sicrhau cytundeb cyflog sefydlog ac i osgoi'r angen am gyllidebau atodol.

**105.** Hoffai'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas â'r materion hyn o ystyried eu heffaith ar gynlluniau cyllidebol y Comisiwn yn unol ag argymhellion a wnaed y llynedd mewn perthynas â chylch cyllideb 2024-25,[124] ac rydym yn ailadrodd y safbwyntiau hynny eto ar gyfer 2025-26.

**106.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r prosesau sydd ar waith drwy'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig ynghylch rheoli'r gweithlu ac addasu lefelau staffio i feysydd o angen. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn arbennig o anodd dod o hyd i ostyngiadau yn nifer y staff yng nghyd-destun Diwygio'r Senedd a'r angen i gefnogi cynnydd yn yr Aelodau o 2026 ymlaen.

**107.** Nodwn ymhellach fod y Comisiwn yn credu nad oes llawer o le i leihau cyllidebau staffio a chroesawu bod ymarfer meincnodi wedi'i gynnal gyda sefydliadau tebyg i roi sicrwydd bod y strwythur uwch-reolwyr yn y Senedd yn nodweddiadol o seneddau. Rydym yn ddiolchgar i'r Prif Weithredwr am gynnig rhannu'r manylion hynny a gofyn i wybodaeth o'r fath gael ei darparu.

**108.** Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y ffordd y mae meddalwedd AI yn cael ei ddefnyddio o fewn y Comisiwn ac mae'n croesawu'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Comisiynydd bod gwaith yn cael ei wneud i ymchwilio'n fanwl i faterion llywodraethu, moesegol a diogelwch wrth i'r feddalwedd hon gael ei chyflwyno. Rydym hefyd yn hoffi'r dull a ddefnyddiwyd i ymchwilio i'r cyfleoedd y mae AI yn eu cynnig a sut y gall fod o fudd i'r Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn.

**109.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi parhau i ystyried AI i sicrhau y gall y Comisiwn, yr Aelodau a'r staff elwa ar arbedion yn y datblygiadau hyn, ac mae'n gofyn i'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd.

**110.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Comisiwn yn cymryd camau i ddeall barn staff, y rhesymau dros lefelau salwch o fewn y sefydliad ac effaith hyn ar y gweithlu ehangach. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y dull rhagweithiol y mae'r Comisiwn yn ei ddefnyddio i gefnogi llesiant staff ac yn nodi'r rhwydweithiau sydd ar gael a'r gwasanaethau a ddarperir.

**111.** Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi gyda phryder y cynnydd yn absenoldeb salwch staff y Comisiwn yn 2023-24 ac yn enwedig y cynnydd yng nghyfran yr

[124] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25, Hydref 2023, Argymhelliad 5

absenoldebau hyn oherwydd iechyd meddwl. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r awgrym y gall llwythi gwaith a phwysau mwy sy'n gysylltiedig â dau ymarfer arbed costau yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 effeithio ar y cynnydd hwn.

**112.** Er ein bod yn cydnabod ymdrechion y Comisiwn yn y maes hwn, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y cynnydd mewn llwythi gwaith a maint y newid sy'n arwain at Ddiwygio'r Senedd yn golygu y bydd angen i'r Comisiwn barhau â'r dull hwn o gefnogi staff yn y flwyddyn i ddod, ac yn gofyn am ragor o wybodaeth am y camau a gymerwyd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â chytundebau cyflog i staff y Comisiwn yn 2025-26 ac, os yw'r dyfarniadau cyflog yn uwch na'r ffigur o bump y cant yn y Gyllideb Ddrafft, mae'r Comisiwn yn egluro sut y bydd y taliadau hyn yn cael eu cyllido.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhannu gyda'r Pwyllgor fanylion ei ymarfer meincnodi gyda strwythurau staffio uwch-reolwyr yn seneddau eraill y DU.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei gynlluniau ar gyfer meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2025-26 ac yn nodi'r trefniadau llywodraethu a'r ystyriaethau moesegol sy'n sail i'w defnyddio gan yr Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i fonitro newidiadau yn llesiant staff drwy arolygon staff ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r arolygon hynny a'r camau a gymerwyd i liniaru'r pwysau ar staff cyn yr etholiad yn 2026.

# 5. Cronfa Prosiectau

**113.** Mae'r Gronfa Prosiectau wedi cynyddu o £1 miliwn yn 2024-25 i £2 miliwn yn 2025-26 "i adlewyrchu'r cyfnod o adnewyddu cylch bywyd sylweddol o waith mawr a seilwaith".[125]

**114.** Yn ogystal â'r flaenraglen waith bresennol o gynnal a chadw / atgyweirio seilwaith TGCh a'r ystad, prosiectau allweddol a ystyrir ar gyfer blaenoriaethu yn ystod 2025-26 fydd:

- System Rheoli Adeiladu sy'n rheoli cyfleusterau adeilad y Senedd;
- Uwchraddio lifftiau ar gyfer adeilad y Senedd;
- Unedau oeri newydd ar gyfer rhai sydd ar ddiwedd eu hoes;
- System Trin Aer newydd ar gyfer rhai sydd ar ddiwedd eu hoes;
- Arfwisg corff yr heddlu;
- Gosod system Senedd TV newydd ar ddiwedd ei oes;
- Diweddaru seilwaith TGCh; ynghyd â
- Chwblhau prosiectau amlflwyddyn a ddechreuwyd yn 2024-25. [126]

**115.** Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor fod prosiectau seilwaith hanfodol yn un o'r pedair prif elfen a oedd yn sbarduno'r cynnydd yn y Gyllideb Ddrafft, gan nodi:

> *"… the savings we brought to you in the past were as a result of critical infrastructure projects that we had delayed. You will see around the building … things that are not working as they should. I was just talking to security this morning; sometimes the security gate fails and they've got to push it across themselves. It's supposed to be automatic. That's a dangerous thing. That's not secure … Well, the cost of that gate is about £60,000 to replace. The cumulative cost of delaying that will be more over time, because you're bringing someone in to repair it all the time."*[127]

[125] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 10
[126] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2025-26, Medi 2024, tudalen 22
[127] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 24

**116.** Hefyd, rhoddodd y Comisiynydd restr o brosiectau adnewyddu cylch bywyd a'r risgiau o beidio â chynnwys y rheini o fewn cynigion cyllidebol 2025-26:

> *"There's a whole host of very expensive things that are coming to an end that will fall over. We've already had a problem with closed-circuit television. CCTV nearly collapsed last year. And if it had, it would have effectively meant that the Senedd couldn't sit—that's how important that one was. The other one is, as I've already mentioned, the lifts … Delaying, delaying and delaying increases the risk, and these things are not cheap. Those lifts were £300,000."*[128]

**117.** Dywedodd y Comisiynydd hefyd wrth yr Aelodau ei bod yn costio £150,000 i uwchraddio lifft 3 yn Neuadd y Senedd,[129] gan ychwanegu:

> *"The building management system replacement also runs heating, lighting, cooling, air source—that's at the end of its life. Delay it another year, you've got problems. That's £500,000."*[130]

**118.** Dywedodd hefyd wrth yr Aelodau yr hoffai roi'r rhestr hon sy'n dangos yr hyn y mae angen ei wneud.[131]

**119.** Pan ofynnwyd iddo a ellid gwthio'r prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft yn ôl i'r blynyddoedd i ddod, dywedodd y Comisiynydd wrth yr Aelodau na ellir eu gohirio am byth[132] a dywedodd:

> *"I think the problem is we've already done that. A lot of stuff has already been put off. Some of it will be, though. Where we can, we will delay stuff into future years. Don't forget that the Commission's only got a year's budget; it doesn't get a three-year budget, and is not able to hold reserves."*[133]

## Barn y Pwyllgor

**120.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r ffyrdd y mae prosiectau o fewn Cronfa Prosiectau'r Comisiwn yn cael eu rheoli'n ddeinamig yn ystod y flwyddyn ac ar draws blynyddoedd i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn, a bod hyn yn galluogi'r Comisiwn i ymateb i faterion annisgwyl sy'n codi a'r cyllid sydd ar gael.

[128] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 172
[129] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 93
[130] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 173
[131] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 173
[132] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 173
[133] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2024, paragraff 170

Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn hanfodol uwchraddio rhai prosiectau sydd wedi cael eu tanariannu neu eu gwthio yn ôl dros y blynyddoedd diwethaf.

**121.** Er ein bod yn cydnabod bod angen buddsoddi yn y meysydd hyn, mae'r Pwyllgor yn galw am restr o brosiectau sydd wedi'i diweddaru o ystyried y symiau sylweddol o arian dan sylw. Rydym yn ddiolchgar i'r Comisiwn am roi gwybodaeth o'r fath mewn ymateb[134] i argymhelliad a wnaed gennym y llynedd[135] ac yn gofyn am hyn ochr yn ochr â dogfennau'r Gyllideb Ddrafft yn y blynyddoedd i ddod.

**122.** Mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn (o dan Bennod 3), rydym wedi gofyn am ragor o eglurder ynghylch strategaeth ystadau hirdymor y Comisiwn. Credwn y byddai dealltwriaeth o lif prosiectau hirdymor y Comisiwn hefyd yn fuddiol, gan gynnwys amcangyfrif o gostau prosiectau unigol os ydynt yn hysbys, a sut mae hyn yn gysylltiedig ag unrhyw waith dadfeilio y mae'n ofynnol i'r Comisiwn fynd i'r afael ag ef yn adeilad Tŷ Hywel ar ddiwedd y les bresennol yn 2032. Bydd hyn yn helpu i lywio ystyriaeth y Pwyllgor o newidiadau cyllidebol sy'n gysylltiedig â'r gronfa prosiectau.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn darparu rhestr o brosiectau arfaethedig ar gyfer 2025-26, gydag amcangyfrif o'r cyllid a ddyrannwyd, cyn dechrau blwyddyn ariannol 2025-26 ac i ddull o'r fath gael ei fabwysiadu ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch ei gynlluniau prosiect hirdymor hyd at 2032, gan gynnwys amcangyfrif o gostau prosiectau unigol, os ydynt yn hysbys.

[134] Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Mawrth 2024
[135] Llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu yn y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Mawrth 2024